**LC341**

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2001**

**Y Cefndir**

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau fel bod hawl gan blant sy'n gadael gofal awdurdod lleol, ac sy'n cael eu cynnal gan yr awdurdod hwnnw, i gael eu rhyddhau rhag gwneud taliadau, a chael a-daliad o'r treuliau teithio yr aed iddynt wrth fynd i'r ysbyty, o dan y cynllun y darperir ar ei gyfer yn Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) 1988.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Nid oes dim pwyntiau wedi'u nodi fel materion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad yn ffurfiol i roi sylw arbennig iddynt o dan Rh S 11.5.

**Sylwadau Cyffredinol**

Mae testun Rheoliadau 1988 bellach yn hynod o astrus gan fod diwygiadau gwahanol wedi'u gwneud ar gyfer Cymru a Lloegr. Effaith hyn yw bod testun y rheoliadau fel y maent yn gymwys yng Nghymru yn sylweddol wahanol i'r testun sy'n gymwys yn Lloegr. Mae'r diwygiadau sy'n cael eu gwneud ar hyn o bryd yn ychwanegu at y gwahaniaethau hyn.

Gan hynny awgrymir y dylid ystyried gwneud ailddeddfiad sydd wedi'i gydgrynhoi o Reoliadau 1988 ar gyfer Cymru.

**Mick Bates AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

23 Hydref 2001